Dŵr Cymru
Welsh Water

# Datganiad Sicrwydd y Bwrdd am Daliadau Cyfanwerthu

## Dogfen Taliadau Cyfanwerthu 2026/27

Ystyriodd y Bwrdd y tariffau Cyfanwerthu ar gyfer 2026/27 yn ei gyfarfod ar 4 Rhagfyr 2025. Nododd y Bwrdd y gofynion o ran gwybodaeth a'r deunyddiau ategol perthnasol, a chyflwynwyd ymholiadau priodol i'r Tîm Gweithredol, ac yn benodol i'r Cyfarwyddwr Strategaeth a Rheoleiddio. Ystyriodd y Bwrdd adroddiad gan Jacobs, a benodwyd i ddarparu sicrwydd allanol bod y systemau a'r prosesau a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r wybodaeth a gyhoeddir am y tariffau cyfanwerthu yn gadarn, ac i adolygu'r broses ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r rhwymedigaethau cyfreithiol.

Ar ôl cyflawni'r ymholiadau rhesymol a pherthnasol uchod, gallwn gadarnhau, hyd y gwyddom, fod y tariffau a nodir yn Nogfen Taliadau Cyfanwerthu Dŵr Cymru 2026/27 yn cydymffurfio â'r amrywiol ofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i'r cwmni o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd) a deddfwriaeth berthnasol arall, yn eu cyfanrwydd.

Paratowyd y ddogfen a'r wybodaeth ychwanegol gofynnol gan staff profiadol gan ddefnyddio prosesau a system rheoli mewnol briodol, ac maent wedi cael eu paratoi i safon y gellir ei disgwyl yn rhesymol gan ymgymerydd diwyd.

Gyda'r 'Rheolau Taliadau Cyfanwerthu a gyhoeddir gan yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr o dan adrannau 66E ac 117I o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991' a gyhoeddwyd yn Hydref 2021, mewn golwg, rydyn ni o'r farn bod ein taliadau'n gyson â'r gofynion hyn, wrth ystyried y rheolau ar gyfer taliadau cyfanwerthu yn eu cyfanrwydd.

Rhoddwyd gwybodaeth berthnasol i'r Bwrdd am effeithiau'r tariffau ar gwsmeriaid sy'n meddiannu eiddo cymwys, ac yn nodi bod y taliadau cyfanwerthu ar gyfer cwsmeriaid dibreswyl yn cynyddu 7-10%, a hynny'n bennaf o ganlyniad i Ddyfarniad Terfynol PR24 a gymhwysir i dariffau yn 2026/27, gyda'r effaith yn dibynnu ar lefel defnydd y cwsmer a band y tariff. Mae'r Bwrdd yn cadarnhau bod strategaethau cyfathrebu a thrin priodol mewn grym ar gyfer y cwsmeriaid yma.

Mae'r taliadau cyfanwerthu terfynol tua phedwar pwynt canrannol yn is na'r ffigurau dangosol a gyhoeddwyd yn Hydref 2025. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i ail-gydbwyso tariffau rhwng grwpiau cwsmeriaid, ynghyd â'r gostyngiadau yn y refeniw a ganiateir yn sgil dyfarniad Blwyddyn Ddall PR24 a chwyddiant alldro.

Mae'r cwmni wedi gohebu ag adwerthwyr sy'n gweithredu o fewn y rhanbarth ac wedi ymgysylltu â CCW mewn ffordd amserol ac effeithiol mewn perthynas â'r Taliadau Cyfanwerthu.

Yng nghyfarfod y Bwrdd ar 4 Rhagfyr 2025, dirprwyodd y Bwrdd gyfrifoldeb dros gymeradwyo'r Ddogfen Taliadau Cyfanwerthu 2026/7 (a'r wybodaeth ategol angenrheidiol) ar ôl cyhoeddi Dyfarniad Terfynol Blwyddyn Ddall PR24 a ffigur chwyddiant CPIH ar gyfer mis Tachwedd, i'r Cadeirydd.

**Jane Hanson CBE**
Cadeirydd

Ar ran y Bwrdd
13 Ionawr 2026